Y Mudiad: Cymdeithas wirfoddol genedlaethol o Gylchoedd Meithrin, cylchoedd Ti a Fi, gofal cofleidiol a meithrinfeydd dydd Cymraeg yw Mudiad Meithrin. Y Mudiad yw'r darparwr gofal ac addysg blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg mwyaf yn y sector gwirfoddol yng Nghymru.

Sefydlwyd y Mudiad ym 1971 gydag oddeutu 50 cylch. Erbyn hyn, wedi tyfu'n aruthrol, mae tua 1000 o Gylchoedd Meithrin, Cylchoedd Ti a Fi, grwpiau 'Cymraeg i Blant' a meithrinfeydd dan faner Mudiad Meithrin. Mae'r rhain yn darparu profiadau blynyddoedd cynnar i oddeutu 22,000 o blant bob wythnos. Yn ogystal, mae'r Mudiad yn gweithio yn agos iawn gyda rhieni er mwyn darparu cymorth a chyngor i'w galluogi i ddatblygu a chefnogi gwaith y cylchoedd yn y cartref.

Er mwyn cyflawni hyn, mae Mudiad Meithrin yn elusen gofrestredig sy'n cyflogi dros 200 o bobl yn genedlaethol, gyda 2000 ychwanegol yn gweithio yn y cylchoedd eu hunain. Cefnogir y cylchoedd gan rwydwaith cenedlaethol o staff proffesiynol sy'n eu cynghori ar amrediad o faterion er enghraifft hybu ymarfer da, hyfforddiant staff a chyswllt ag Awdurdodau Lleol.

O ganlyniad, rydym yn gweithio gyda phlant a theuluoedd o amryw o gefndiroedd cymdeithasol-economaidd. Rydym yn cydweithio gyda'r asiantaeth *Dechrau'n Deg* i ddarparu cyfleoedd yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig, a gyda'r awdurdodau addysg leol i gynnig llefydd addysg rhan amser i blant 3 oed yn eu cymuned leol.

Yn ogystal, mae gennym is-gwmni sydd yn darparu hyfforddiant cyfrwng Cymraeg i ennill cymwysterau blynyddoedd cynnar. Gwneir hyn drwy gyd-weithio ag ysgolion uwchradd i ddarparu cyrsiau i ddisgyblion ysgol, a thrwy'r cynlluniau hyfforddi cenedlaethol. Darperir cyrsiau hyfforddi yn seiliedig ar ddysgu yn y gweithle gan rwydwaith o diwtoriaid, aseswyr a dilyswyr mewnol ledled Cymru.

- **Gwaith craffu ar ôl deddfu ar Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 – asesu llwyddiannau a chyfyngiadau canfyddedig y ddeddfwriaeth, ac effaith ac effeithiolrwydd safonau'r Gymraeg wrth wella gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg a gwella mynediad atynt.**
- **Asesu a yw'r fframwaith deddfwriaethol yn cefnogi'r gwaith o hyrwyddo'r Gymraeg a'r defnydd ohoni ynteu'n cyfyngu ar y gwaith hwn.**
- **Persbectif rhyngwladol - casglu tystiolaeth ar ddeddfwriaeth i warchod a hyrwyddo gwaith cynllunio ieithyddol yng nghyd-destun ieithoedd lleiafrifol mewn gwledydd eraill.**

Mae Mudiad Meithrin yn croesawu'r cyfle i gynnig tystiolaeth mewn ymateb i alwad y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu. Ein prif nod, yr egwyddor waelodol a'r hyn sydd yn gyrru'n cenhadaeth yw'r ymlyniad angerddol sy'n ymwneud â chreu dinasyddion Cymraeg a dwyieithog (os nad amlieithog) y dyfodol.

Er mwyn sicrhau fod gan bob plentyn yng Nghymru hawl gwirioneddol ag ymarferol i ofal plant ag addysg Cymraeg rhaid sicrhau:

- Fframwaith cyfreithiol sy'n cael ei reoleiddio yn gadarn
- Dyletswyddau statudol effeithiol i dyfu addysg Gymraeg yn effeithiol
- Buddsoddiad sylweddol i hybu hinsawdd ag amgylchedd blaengar i ddwyn perswâd ar rieni a theuluoedd i ddewis gofal ac addysg cyfrwng Cymraeg

Taro'r hoelen – Gwireddu Cymraeg 2050

Mae gweledigaeth Cymraeg 2050 yn gadarnhaol ac yn glodwiw. Serch hynny mae pwyslais Mesur y Gymraeg 2011 wedi bod ar ddarparu gwasanaethau yn Gymraeg gan anwybyddu i raddau helaeth y modd y mae plant yn dysgu ac yn caffael iaith. Tra bod Cymraeg 2050 yn mynd i'r afael â hynny, mae yna wagle bellach yn ein fframwaith cyfreithiol sydd yn gadael gwendidau sylweddol yn y modd y mae cynllunio ieithyddol yn digwydd yn arbennig yn y maes addysg.

Fel mudiad gyda ffocws ar ddarparu gwasanaethau ar lawr gwlad rydym wedi meddwl am bersbectif plant a theuluoedd yn bennaf wrth lunio'r ymateb hwn.

Nid yw cylch gorchwyl y pwyllgor yn mynd i'r afael â hyn ac felly rydym yn colli cyfle gwerthfawr i ddefnyddio amser deddfu yn y ffordd fwyaf effeithiol.

Hoffai Mudiad Meithrin gynnig y dylai unrhyw ystyriaeth o ddiwygio deddfwriaethol fynd i'r afael ag addysg (ac felly gofal plant) - fel un o'r prif wasanaethau fydd yn sicrhau ein bod yn gwireddu targedau Cymraeg 2050.

Mae'r cynigion a wnaed hyd yma trwy'r 'Cynigion ar gyfer Papur Gwyn Bil y Gymraeg 2017' yn ymdrin â materion sydd yn arwynebol. Maent yn annhebygol o gael effaith gwirioneddol ar dyfu poblogaeth sydd yn rhugl yn y Gymraeg mewn blynyddoedd i ddod. Heb ymdrech newydd i dyfu'r sector addysg cyfrwng Cymraeg, mae strategaeth y Gymraeg 2050 yn mynd i fethu. Ni fydd gennym niferoedd digonol o siaradwyr Cymraeg i ddiwallu ein hanghenion am weithluoedd Cymraeg ar draws y sbectrwm gwasanaethau cyhoeddus a phreifat yn y dyfodol.

Yn dilyn Adolygiad brys o Gynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg 2017-20 gan Aled Roberts, mae'n amlwg nad yw'r system bresennol wedi arwain at gynllunio ieithyddol effeithiol yn y maes addysg. Mae'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg 2010 hefyd wedi ei gwerthuso yn fanwl erbyn hyn ac yn dangos i ni ble mae'r gwendidau, a beth yw'r ffordd ymlaen. Mae toreth o dystiolaeth yn bodoli eisoes sy'n dangos fod diffyg cydlyniant rhwng strategaethau a deddfwriaethau amrywiol yn y maes addysg ac iaith. Mae hyn wedi arwain at sefyllfaoedd ble mae bodloni gofynion cyfreithiol o dan y Mesur teithio i Ddysgwyr 2008 yn tanseilio hawl plant i addysg Gymraeg sy'n gydnaws a'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg.

Ein teimlad ni ym Mudiad Meithrin yw bod buddsoddi amser deddfwriaethol mewn fersiwn newydd o Fil y Gymraeg heb fynd i'r afael â'r maes addysg yn annigonol.

Ail ystyried deddfwriaeth mewn perthynas â'r CSGA

I daro'r hoelen ar ei phen, mae angen creu neu ddiwygio deddfwriaeth newydd i'r iaith Gymraeg sydd yn gosod disgwyliadau a chyfrifoldebau ar ein hawdurdodau lleol. Dylent gynnig mynediad i addysg Gymraeg i bob plentyn yng Nghymru a chynllunio tuag at hynny gan ddilyn targedau meintiol pendant wedi eu gosod gan y llywodraeth. Mae Mudiad Meithrin wedi paratoi papur mewn ymateb i adolygiad brys y CSGA gan Aled Roberts a drafodir yr anghenion hyn yn fwy manwl yno[1]. Mae tirwedd polisi'r blynyddoedd cynnar presennol gyda'r cynnig addysg a gofal 30 awr i blant yn greiddiol i lwyddiant gweddill y system i wireddu Cymraeg 2050. Yn fras cefnogwn:

- Yr angen i gryfhau'r berthynas strategol rhwng llywodraeth leol a'r Mudiad Meithrin er mwyn sicrhau twf ar lefel pob sir fydd yn cyfrannu at dargedau cenedlaethol Llywodraeth Cymru ar hyd y daith hyd at 2050 [2].
- I ffurfioli fel rhan o ddeddfwriaeth neu is-ddeddfwriaeth y berthynas sydd eisoes yn bodoli rhwng Mudiad Meithrin a Llywodraeth Leol.
- Cynnwys y sector Gofal, Blynyddoedd Cynnar a Gwaith Chwarae yn ei ehangder mewn unrhyw drafodaethau am ddatblygu darpariaethau lleol trwy gynllunio ieithyddol statudol yn y dyfodol. Bydd hyn yn sicrhau bod cynlluniau i ddatblygu gwasanaethau lleol (yn arbennig mewn ymateb i'r Cynnig 30 awr o ofal ac addysg i blant 3 oed) yn cyd-fynd gyda'r weledigaeth leol a chenedlaethol yn y tymor hir.
- Disodli'r egwyddor o 'fesur y galw' a chreu canllawiau newydd fel rhan o ddeddfwriaeth gynradd neu is ddeddfwriaeth fydd yn seilwaith i gynllunio ieithyddol addysgiadol 0-18 oed. Mae'r gwynt eisoes wedi troi yn sylweddol yn sgil cyflwyno safonau ieithyddol ac mae angen ymestyn a herio'r symudiad newydd yma tuag at ddisgwyliad cyfreithiol o gynllunio twf heb aros i fesur y galw. Er mwyn gwireddu targedau cenedlaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer 2050, mae angen cynyddu capasiti cyfrwng Cymraeg y sector blynyddoedd cynnar er mwyn bwydo'r ysgolion cyfrwng Cymraeg a thyfu poblogaeth ddwyieithog y dyfodol.

Rydym yn argymell mai'r llwybr tuag at hyn (gyda chefnogaeth ddeddfwriaethol newydd ag addas) yw gosod rhaglen yn ei le fydd yn sefydlu cyfundrefn addysg cyfrwng Cymraeg yn ei le i bob plentyn yng Nghymru o oed Cyfnod Sylfaen. Yn amlwg bydd hyn yn cymryd blynyddoedd i'w weithredu fesul cam, ond gyda chynllunio gofalus (yn arbennig cynllunio gweithlu) a nerth deddfwriaethol, mae'n gwbl bosibl.

Hybu a Hyrwyddo

Er i ni gwestiynu blaenoriaethau cylch gorchwyl y pwyllgor yn y mater hwn, hoffem wneud sylw ar y cwestiwn

• Asesu - a yw'r fframwaith deddfwriaethol yn cefnogi'r gwaith o hyrwyddo'r Gymraeg a'r defnydd ohoni ynteu'n cyfyngu ar y gwaith hwn.

[1] Gweler Atodiad 1
[2] Adolygiad brys o Gynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg – 2017–20

Hoffai Mudiad Meithrin weld ymgyrch ddwys i gyrraedd rhieni yn uniongyrchol i hyrwyddo gofal plant ac addysg Gymraeg i bawb yng Nghymru, gan ddilyn patrwm ymgyrch plannu coed 'PLANT' Cymru sydd bellach yn ddeg oed. Mae'r ymdrechion hybu a hyrwyddo presennol yn anuniongyrchol ac yn ddibynnol ar gydweithrediad amryw o fudiadau a sefydliadau sydd yn ceisio hybu eu gwasanaethau (eraill) penodol eu hunain. Mae ymgyrchoedd marchnata llywodraethol sydd yn addysgu'r boblogaeth yn cario statws unigryw. Dylai Llywodraeth Cymru barhau a datblygu'r gwaith hwn. Pe bai deddfwriaeth newydd yn gosod hawl i addysg Gymraeg fel safon dros Gymru (ac yn gwerthu manteision dwyieithrwydd) yna byddai modd hyrwyddo'r neges hon i deuluoedd. Yn anffodus nid yw hyn yn hawl ar hyn o bryd gan na chafodd ei gynnwys yn Mesur y Gymraeg 2011.

Safonau Iaith a'r gweithlu

Tra bod y safonau ieithyddol yn werthfawr o safbwynt gwella mynediad i wasanaethau Cymraeg mewn rhai meysydd, mae datblygu gweithlu Cymraeg sy'n meddu ar gymwysterau addas yn parhau i fod yn her. Yn y maes gofal plant (maes cwbl hanfodol i ddechrau plant ar y llwybr tuag at fod yn Gymry Cymraeg) mae angen syniadau ac ymdrechion newydd gwreiddiol i geisio denu pobl i weithio yn y maes. Byddai'n braf gweld system i wobrwyo myfyrwyr am ddod i'r maes - swm o arian o bosibl wrth dderbyn eu swydd gyntaf (fel sy'n gynyddol arferol mewn rhai sectorau addysg) neu lwfans costau byw wrth astudio. Gwelir defnydd o dechnegau cyffelyb yn y maes addysg eisoes.

Gellid peilota pob math o syniadau newydd gwreiddiol o fewn cwmpas y ddeddfwriaeth bresennol, megis

- denu myfyrwyr sy'n siarad Cymraeg o Batagonia gan gychwyn gyda chynllun peilot (techneg a ddefnyddir yn fynych i gynllunio gweithlu y GIG gyda meddygon a nyrsys rhyngwladol)
- hyfforddi bechgyn a merched mewn rhaglenni fel Ysgol Goedwig i'w denu i'r maes gofal plant
- buddsoddi mewn rhaglen hyrwyddo ddwys ar gyfer y gweithlu gofal plant a datblygu gyrfa broffesiynol yn y sector cyfrwng Cymraeg (i blethu gyda darpariaeth 30 awr)
- rhoi mwy o gyfleodd i ymarferwyr gofal plant i astudio dramor ble mae darpariaeth o safon ragorol neu ble mae yna ddarpariaethau yn cael eu cynnal trwy gyfrwng ieithoedd lleiafrifol

Nid oes angen newid deddfwriaethol i gyflawni rhai o'r syniadau hyn a syniadau gwreiddiol eraill ond yn hytrach ymrwymiad a blaengaredd gan Lywodraeth Cymru.

Mewn cyfnod o wasgu economaidd a thoriadau i wasanaethau lleol mae'n hollbwysig bod unrhyw fuddsoddiad yn gwneud gwahaniaeth i brofiadau pobl ar lawr gwlad. Dadleuwn mai rhoi cyfleoedd i blant i ddysgu'r iaith, rhoi cyfleoedd iddynt dderbyn hyfforddiant yn y Gymraeg wedi gadael ysgol a rhoi'r cyfle iddynt weithio yn Gymraeg yn eu meysydd dewisol ddylai fod yn gyrru unrhyw newidiadau deddfwriaethol.

ATODIAD 1

Ymateb Mudiad Meithrin i Argymhellion Adolygiad Brys o'r CSGA i Fwrdd Cynghori CSGA Llywodraeth Cymru

Person Cyswllt: Angharad Starr

Swydd: Rheolwr Polisi

E-bost: angharad.starr@meithrin.cymru

Ffôn: 01970 639639

Argymhelliad 1: Creu perthynas mwy agored a heriol rhwng Llywodraeth Cymru a'r holl randdeiliaid ar ddatblygiad y CSGAau yn enwedig wrth osod targedau a chytuno ar ddeilliannau.

1.1 Cytunwn gyda'r angen i greu perthynas mwy agored a heriol rhwng Llywodraeth Cymru a'r holl randdeiliaid er mwyn datblygu CSGAau sydd yn adlewyrchu dyheadau uchelgeisiol y strategaeth i gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Nodwn yr angen i sicrhau bod lle i drafod, cynnig, cytuno ar a herio targedau a deilliannau o fewn y fforymau sirol lle bod y cyfleoedd hynny yn bodoli. Serch hynny, rhaid cydnabod nad yw hyn bob amser yn hawdd i gynrychiolwyr o sectorau, mudiadau a darparwyr gwasanaethau sydd hefyd yn ddibynnol ar yr Awdurdodau Lleol am eu cyllid i'w gyflawni.

1.2 Er mwyn cyflawni hyn rhaid cael cyfrwng effeithiol sy'n galluogi mesur cynnydd yn erbyn y deilliannau a'r targedau, sydd yn galluogi trafodaeth dryloyw i ddigwydd.

1.3 Rhaid i'r targedau a gyfeirir atynt yn 1.2 fod yn glir, meintiol a mesuradwy.

Argymhelliad 2: Adolygu amserlen y CSGAau i gyd-fynd â Rhaglenni Cyfalaf Llywodraeth Cymru, yn arbennig Rhaglen Ysgolion 21ain Ganrif. Dylid targedu'r buddsoddiad cyfalaf er mwyn sicrhau cysylltiad rhwng rhaglenni ysgolion a chyn-ysgol.

2.1 Cytunwn gyda'r awgrymiad y dylid adolygu amserlen y CSGAau i gyd-fynd â Rhaglenni Cyfalaf Llywodraeth Cymru. Byddai hyn yn ei gwneud yn haws i flaen gynllunio a chyd gynllunio er mwyn sicrhau cysylltiad rhwng rhaglenni ysgolion a chyn-ysgolion.

2.2 Awgrymwn hefyd yr angen i sicrhau a hwyluso'r pwyllgorau sydd yn penderfynu ar wariant yr amryw Rhaglenni Cyfalaf, i fedru arallgyfeirio ceisiadau at ei gilydd pan fo hynny'n briodol, ac i fedru cyd-ariannu ceisiadau sydd yn pontio sawl maes.

2.3 Dylid hefyd sicrhau fod unrhyw raglenni ynghlwm â'r Cynnig Gofal Plant (yn y dyfodol) yn cael eu datgloi i bwrpas hybu gofal ac addysg Gymraeg.

2.4 Awgrymwn na ddylid creu nac adeiladu ysgol cyfrwng Cymraeg cynradd nac uwchradd heb fod darpariaeth blynyddoedd cynnar yn rhan o'r cynllun ac fod ystyriaeth wedi'i roi i ad-leoli darpariaeth sy'n bodoli eisoes o fewn y dalgylch dan sylw.

2.5 Yn atodol, nodwn y byddai ymestyn hyd amserlen y CSGAau i fod o leiaf 5 mlynedd yn galluogi cynllunio mwy ystyrlon ac yn galluogi'r gwahanol rhanddeiliaid i weithredu a mesur effaith ar lawr gwlad.

Argymhelliad 3: Adolygu'r deilliannau presennol a hefyd cytuno ar y deilliannau mwyaf pwrpasol a phriodol ar gyfer y cylch nesaf o GSGAau er mwyn cyfrannu yn effeithiol at uchelgais y Llywodraeth o ran 2050.

3.1 Cytunwn gyda'r angen i adolygu'r deilliannau presennol, er mwyn medru sicrhau cynnwys y deilliannau sydd fwyaf perthnasol er mwyn cyfrannu yn effeithiol at uchelgais Llywodraeth Cymru yn Strategaeth Cymraeg 2050.

3.2 Yn benodol, cytunwn fod cynnwys deilliant penodol sy'n ymwneud â darpariaeth "cyn-ysgol" yn angenrheidiol. Mae argaeledd darpariaethau cyn-ysgol cyfrwng Cymraeg ar draws y wlad yn rhan bwysig o'r ddarlun cyfan ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg.

3.3 Mae Llywodraeth Cymru wedi gosod targedau pendant ar gyfer sicrhau twf yn y sector i Mudiad Meithrin. Byddai cynnwys deilliant pwrpasol ar gyfer y sector o fewn y CSGAau yn ffordd o sicrhau bod y cynlluniau a datblygiadau hyn yn cael eu cydnabod yn lleol, ac yn sicrhau ffordd gyson o fesur a dadansoddi'r datblygiadau ar draws Cymru.

Argymhelliad 4: Symud yn gyflym a phwrpasol er mwyn cyflwyno'r newidiadau deddfwriaethol angenrheidiol. Dylid sefydlu panel neu grŵp er mwyn trafod a phwyso a mesur y newidiadau sydd eu hangen i'r ddeddfwriaeth a'r rheoliadau cyn eu cyflwyno gerbron y Cynulliad.

4.1 Cytunwn gyda'r angen i sicrhau bod unrhyw newidiadau i ddeddfwriaeth bresennol neu ddeddfwriaeth ychwanegol angenrheidiol yn cael ei gyflawni'n gyflym.

4.2 Nodwn yr angen i sicrhau bod lleoliad y CSGAau o fewn darpariaeth Bil y Gymraeg yn eglur i'r holl randdeiliaid er mwyn osgoi dryswch ac i sicrhau cadw momentwm llawr gwlad.

4.3 Noder fod angen mewnbwn corff cenedlaethol i fonitro ac arolygu cyflawniad y gwaith yn sirol.

Argymhelliad 5: Dylid sicrhau cytundeb ar lefel cenedlaethol rhwng llywodraeth leol a Llywodraeth Cymru er mwyn cael cysondeb i aelodaeth, rolau a chyfraniadau disgwyliedig ar y fforymau a thrafod newid ar sail arfer dda presennol.

5.1 Cytunwn y dylid sicrhau cytundeb ar lefel cenedlaethol rhwng llywodraeth leol a Llywodraeth Cymru er mwyn cael cysondeb i aelodaeth, rolau a chyfraniadau disgwyliedig ar y fforymau.

5.2 Yn ddelfrydol, nodwn y byddai Fforymau Addysg leol yn cyfrannu at drafodaethau'r Fforymau Iaith Sirol, er mwyn sicrhau bod Strategaeth iaith y sir yn adlewyrchu'r holl weithgareddau ac yn annog perchnogaeth ar draws adrannau'r Llywodraeth Leol a'r partneriaid eraill.

5.3 Gellir hefyd ystyried nodi targedau sydd eisoes gan bartneriaid a rhanddeiliaid eraill i'w weithredu yn lleol o fewn y Strategaeth Iaith er mwyn hwyluso cynllunio strategol a chodi ymwybyddiaeth o'r hyn sydd eisoes ar y gweill ar draws adrannau.

5.4 Cyfeirwn hefyd at yr hyn a nodwyd eisoes ym mhwynt 4.3.

Argymhelliad 6: Cryfhau'r berthynas strategol rhwng llywodraeth leol a'r Mudiad Meithrin er mwyn sicrhau twf ar lefel pob sir fydd yn cyfrannu at dargedau cenedlaethol Llywodraeth Cymru ar hyd y daith hyd at 2050.

6.1 Mewn egwyddor, cytunwn gyda'r nod a'r angen i gryfhau'r berthynas sydd eisoes yn bodoli rhwng Mudiad Meithrin a Llywodraeth Leol.

6.2 Cytunwn mai meithrin a datblygu partneriaeth gwaith cadarn gyda holl Awdurdodau Lleol Cymru yw'r ffordd i alluogi cynllunio strategol a datblygu darpariaeth cyn-ysgol cyfrwng Cymraeg yn lleol, fydd yn cyfrannu at dargedu cenedlaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer Strategaeth Cymraeg 2050.

6.3 Yn atodol, nodwn yr angen i sicrhau cynnwys y sector Gofal, Blynyddoedd Cynnar a Gwaith Chwarae yn ei ehangder mewn unrhyw drafodaethau am ddatblygu darpariaethau lleol er mwyn sicrhau bod cynlluniau datblygu grwpiau unigol yn cyd-fynd gyda'r weledigaeth leol a chenedlaethol yn y tymor hir.

6.4 Yn gyfredol, cyfeirir at 'mesur y galw' ac ymateb i'r galw hynny ar gyfer darparu cyfleoedd cyn-ysgol ac addysg cyfrwng Cymraeg. Rhaid oes ystyried yr angen i greu galw am ddarpariaeth cyn-ysgol cyfrwng Cymraeg ar lawr gwlad. Er mwyn gwireddu targedau cenedlaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer 2050, mae angen cynyddu capasiti cyfrwng Cymraeg y sector, er mwyn ei wneud cynyddu'r nifer o deuluoedd ar draws Cymru sydd yn medru manteisio ar y cyfleoedd hyn.

Argymhelliad 7: Llywodraeth Cymru i gynllunio darpariaeth Gymraeg ddigonol yn y cynnig gofal plant 30 awr gan ystyried ei effaith arfaethedig ar batrymau darpariaeth leol.

7.1 Cytunwn gyda'r angen i sicrhau cynllunio darpariaeth cyfrwng Cymraeg digonol o fewn y Cynnig 30 awr.

7.2 Byddai cynnig targed sirol o isafswm y llefydd sydd angen eu darparu mewn lleoliadau cyfrwng Cymraeg yn un ffordd o gyflawni hyn.

7.3 Nodwn nad oes cysondeb cenedlaethol yn y ffyrdd y mae'r Awdurdodau Lleol yn cynnig yr elfen addysg 'Meithrin Cyfnod Sylfaen' / 'Addysg 3 oed' sydd yn rhan o'r Cynnig 30 awr. Gall hyn gael effaith ar yr opsiynau sydd ar gael i

rieni a'u dewisiadau ar gyfer yr oriau gofal sydd hefyd yn rhan o'r Cynnig 30 awr.

7.4 Er bod y taliad ar gyfer yr oriau 'gofal' sydd yn rhan o'r Cynnig 30 awr wedi ei gytuno ac yn gyson ar draws Cymru, nodwn nad oes yna gysondeb yn y taliadau y mae lleoliadau'r sector nas-gynhelir yn eu derbyn ar gyfer yr elfen addysg h.y. Y Cyfnod Sylfaen. Cyfeiriwn yma at y tabl yn **Atodiad 1** , sydd yn cynnwys y manylion a gasglwyd gan bartneriaid Cwlwm ac sydd eisoes wedi ei gyflwyno i aelodau'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg yn y Senedd.

7.5 Yn atodol, nodwn yr angen i sicrhau bod cynlluniau sirol yn sicrhau cyfleoedd i staff sydd am weithio yn y sector cyn-ysgol, neu sydd eisoes yn gweithio yn y sector i ddatblygu'r sgiliau Cymraeg priodol. Er mwyn gwireddu hyn, byddai angen sicrhau bod yna gyfleoedd i unigolyn ddilyn cyrsiau galwedigaethol perthnasol ac ystyrlon trwy gyfrwng y Gymraeg, ar y cyd gyda chyfleoedd i aelodau presennol y gweithlu i ddatblygu ac i gryfhau eu sgiliau Cymraeg. Dylid mynnu fod elfen asesiad llafar y cyrsiau galwedigaethol hyn yn digwydd yn Gymraeg.

7.6 Mae sicrhau cyflenwad digonol o weithwyr sydd yn meddu ar y sgiliau proffesiynol angenrheidiol ynghyd â sgiliau Cymraeg o'r safon uchaf i'r gweithlu Gofal Plant, Blynyddoedd Cynnar a Gwaith Chwarae yn greiddiol i fedru sicrhau darpariaeth ddigonol o leoliadau cyn-ysgol cyfrwng Cymraeg ar draws Cymru.

Argymhelliad 8: Symleiddio proses categoreiddio ieithyddol ysgolion. Yn y cyfamser y consortia i lunio adroddiadau i'r awdurdodau lleol yn cadarnhau'r sefyllfa ieithyddol gyfredol ym mhob ysgol unigol.

8.1 Cytunwn yn gryf gyda'r angen i symleiddio a chysoni'r proses categoreiddio ieithyddol ysgolion ar draws Cymru.

8.2 Er cyhoeddwyd y ddogfen *Diffinio ysgolion yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg* yn 2007, nodwn yr angen i'w diweddaru a'u gwneud yn haws i'w ddeall i rieni ac eraill.

8.3 Nodwn hefyd yr angen i sicrhau diffiniad cryf o ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg a darpariaeth 'dwyieithog' wrth ddatblygu'r diffiniadau newydd ar gyfer categoreiddio ysgolion gan mai canlyniad nid cyfrwng yw dwyieithrwydd.

8.4 Nodwn hefyd yr angen i sicrhau bod y consortia addysg yn defnyddio diffiniadau cyson wrth adrodd ar sefyllfa ieithyddol yr ysgolion ar draws Cymru.

Argymhelliad 9: Sicrhau natur a dilysrwydd data sy'n cael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru. Dylai hyn arwain at adnabyddiaeth fuan ac effeithiol o unrhyw batrymau yn y data sydd yn awgrymu pryderon mewn prosiectau/rhaglenni yn ymwneud â'r iaith Gymraeg.

9.1 Cytunwn gyda'r angen i sicrhau natur a dilysrwydd data sy'n cael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru.

9.2 Cesglir data o Gylchoedd Meithrin a Chylchoedd Ti a Fi sy'n aelodau Mudiad Meithrin. Yn gyfredol, nid ydym yn casglu data i'r un lefel i'r Meithrinfeydd Dydd annibynnol sydd yn aelodau o'r Mudiad (gweler Atodiad 2).

9.3 I'r perwyl hwn, rydym yn asesu ein prosesau a'n systemau yn rheolaidd er mwyn ceisio sicrhau hygrededd y data sydd eisoes yn cael eu cyflwyno gennym i Lywodraeth Cymru.

Argymhelliad 10: Llywodraeth Cymru i gyhoeddi canllawiau pendant o ran dyraniad buddsoddiad cyfalaf i'r gyfundrefn addysg cyfrwng Cymraeg. Mae nifer o'r rhanddeiliaid wedi crybwyll cronfa ar wahân ac eraill yn credu dylid cynyddu'r ganran o gefnogaeth ariannol gan y Llywodraeth, lle mae cynlluniau yn ymateb i flaenoriaeth y Llywodraeth ar dyfu addysg Gymraeg. Dylid adolygu prosesau cyfalaf o ran darpariaeth cyn-ysgol hefyd er mwyn cynllunio trosiant rhwng y lleoliadau cyn-ysgol a'r ysgolion cynradd Cymraeg yn effeithiol.

10.1 Cytunwn y byddai canllawiau pendant o ran dyraniad buddsoddiad cyfalaf i'r gyfundrefn addysg cyfrwng Cymraeg yn sicrhau bod ystyriaeth yn cael ei rhoi er mwyn tyfu capasti'r sector i ddarparu cyfleoedd addysg cyfrwng Cymraeg ar lawr gwlad.

10.2 Nodwn yr angen i sicrhau bod cynllunio strategol i sicrhau bod ystyriaeth i gynnig lleoliadau o'r ansawdd uchaf i sefydlu a datblygu lleoliadau cyn-ysgol cyfrwng Cymraeg yn lleol yn rhan o'r cynlluniau hyn.

10.3 Cytunwn gyda'r angen i adolygu prosesau cyfalaf ar gyfer darpariaethau cyn-ysgol, er mwyn medru cynllunio ar gyfer dilyniant o'r lleoliad cyn-ysgol i'r ysgol cyfrwng Cymraeg yn effeithiol.

10.4 Yn sgil hyn, nodwn yr angen am sicrwydd hirdymor i leoliadau cyn-ysgol sydd yn cael eu cynnwys fel rhan o gynlluniau a buddsoddiadau cyfalaf Llywodraeth Cymru ar gyfer datblygu ysgolion cyfrwng Cymraeg newydd. Er mwyn gwneud hyn, byddai angen sicrhau o fewn y cytundebau cyllido, bod gofod penodol wedi ei neilltuo o fewn y cynlluniau ar gyfer y ddarpariaeth cyn-ysgol, ac ni ddylid ei hystyried fel rhan o'r ysgol wrth ystyried capasiti'r ysgol.

10.5 Byddai hefyd angen sicrhau bod y diffiniadau ieithyddol a ddefnyddiwyd ar gyfer categoreiddio ysgolion, y cyfeiriwyd atynt yn Argymhelliad 8, yn cael eu defnyddio er mwyn penderfynu ar ddosbarthiad grantiau cyfalaf ar gyfer darpariaethau cyfrwng Cymraeg.

Argymhelliad 11: Penderfyniad ar lefel genedlaethol neu gytundeb rhwng y Llywodraeth a'r awdurdodau lleol ar broses sy'n penderfynu ar gyfrwng iaith unrhyw ysgol sydd i'w hadeiladu o dan oblygiadau a gofynion y Cynllun Datblygu Lleol neu fel rhan o gytundeb rhwng y datblygwr a'r cyngor lleol yn unol ag amodau Adran 106.

11.1 Cynigiwn fod angen datblygu canllawiau cenedlaethol ar gyfer y trafodaethau hyn er mwyn datgloi potensial amodau Adran 106 er budd gofal ac addysg Gymraeg.

11.2 Nodwn yr angen i sicrhau bod adeiladu ysgolion newydd yn cyfrannu tuag at y targedau a osodwyd ar gyfer cynyddu'r % o ddisgyblion sy'n cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg neu sy'n astudio ar gyfer cymwysterau drwy gyfrwng y Gymraeg fel y nodwyd yn Strategaeth Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru a'r CSGAau.

Argymhelliad 12: Ffocws newydd ar ddarpariaeth ôl-16 wrth ystyried unrhyw newidiadau o ran y data sydd angen ei gasglu er mwyn sicrhau darlun cywir ar natur y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn y colegau addysg bellach. Unwaith mae'r data yn gadarn a'r darlun yn glir gellir ystyried y modd y mae

darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn y sector addysg bellach yn cael ei gyllido i'r dyfodol.

12.1 Croesawn gadarnhad Llywodraeth Cymru y bydd colegau addysg bellach Cymru yn rhan o gylch g waith y Coleg Cymraeg Cenedlaethol.

12.2 Fel y nodwyd eisoes yn ein hymateb i Argymhelliad 7, mae sicrhau cyflenwad digonol o weithwyr sydd yn meddu ar y sgiliau proffesiynol angenrheidiol ynghyd â sgiliau Cymraeg o'r safon uchaf i'r gweithlu Gofal Plant, Blynyddoedd Cynnar a Gwaith Chwarae yn greiddiol i fedru sicrhau darpariaeth ddigonol o leoliadau cyn-ysgol cyfrwng Cymraeg ar draws Cymru.

12.3 Nodwn yma'r angen i sicrhau cyfleoedd i fyfyrwyr ôl-16 sydd am weithio yn y sector Gofal Plant, Blynyddoedd Cynnar a Gwaith Chwarae i ddatblygu'r sgiliau Cymraeg priodol.

12.4 Er mwyn gwireddu hyn, byddai angen sicrhau bod yna gyfleoedd i unigolyn ddilyn y cyrsiau galwedigaethol perthnasol trwy gyfrwng y Gymraeg, o fewn pellter rhesymol i'w cartref.

12.5 Nodwn yr angen i sicrhau bod y cyrsiau cyfrwng Cymraeg hyn yn cael eu cynnal, a gall fod angen grantiau ychwanegol ar leoliadau i fedru cyfiawnhau cynnal darpariaeth benodedig Cymraeg i niferoedd llai o unigolion nag sydd yn arferol o fewn ei sefydliad.

12.6 Rhaid hefyd sicrhau cyfleoedd i fyfyrwyr ôl-16 i ddatblygu sgiliau Cymraeg perthnasol i'r gweithle ac i gryfhau eu sgiliau Cymraeg ochr-yn-ochr a'u cyrsiau galwedigaethol.

12.7 Er mwyn sicrhau bod y data a gesglir yn rhoi darlun clir a chyson o natur y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg ar draws colegau addysg bellach Cymru, nodwn yr angen i osod diffiniadau cenedlaethol ar gyfer categoreiddio'r ddarpariaeth hynny.

12.8 Cyfeiriwn at y ddogfen 'Cynllun Mudiad Meithrin ar gyfer cymhwyso'r gweithlu' sydd wedi ei gynnwys yn Atodiad 3.

Argymhelliad 13: Cynllunio a gweithredu brys er mwyn cynyddu'r nifer o athrawon sydd yn cael eu hyfforddi i addysgu yn y Gymraeg.

13.1 Cytunwn gyda'r angen i gynllunio a gweithredu brys er mwyn cynyddu'r nifer o athrawon sydd yn cael eu hyfforddi i addysgu yn y Gymraeg.

13.2 Nodwn hefyd yr angen i gynllunio a gweithredu i sicrhau cymhwyso nifer digonol o unigolion i ymgymryd â swyddi megis cynorthwywyr dosbarth, a chynorthwywyr cinio sydd a'r sgiliau Cymraeg angenrheidiol i gefnogi'r athrawon yn eu gwaith.

Argymhelliad 14: Gosod targedau a meini prawf ymhob cynllun i sicrhau cyfleoedd i bobl ifanc ddefnyddio eu Cymraeg tu allan i oriau ysgol. Ceisio sicrhau mwy o gysondeb yn y modd mae gwasanaethau ieuenctid trwy gyfrwng y Gymraeg yn cael eu darparu ar draws Cymru.

14.1 Cytunwn gyda'r angen i sicrhau cyfleoedd i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd i ddefnyddio'r Gymraeg mewn sefyllfaoedd anffurfiol yn eu cymunedau.

14.2 Nodwn yr angen i sicrhau bod darpariaeth cyfleodd yn y Gymraeg yn dod yn rhan o gynnig prif-ffrwd y gwaith hwn ar draws Cymru, ac nid fel darpariaeth 'niche' yn unig.

Argymhelliad 15: Y cynghorau i gynnwys asesiadau manwl o'u gwasanaethau anghenion dysgu ychwanegol yn eu cynlluniau, a'r consortia i adrodd ar y sefyllfa yn rheolaidd gan arwain ar drafodaethau rhanbarthol neu isranbarthol lle nad yw'r galw am wasanaethau yn ddigonol yn y siroedd unigol.

15.1 Mae Mudiad Meithrin yn cytuno gyda'r argymhelliad hwn ac yn meddwl y bydd yn fodd cyhoeddus o wirio gwybodaeth am argaeledd gwasanaethau ymyraethol arbenigol i blant ag ADY. Ystyriwn y bydd yr argymhelliad hwn yn cryfhau a chefnogi gweithrediad effeithiol y ddeddf newydd.

15.2 Bydd yr argymhelliad hwn ynghyd a'r goblygiadau deddfwriaethol newydd i Weinidogion Cymru gasglu data cenedlaethol yn mynd i'r afael a phwyntiau 1.39 a 1.40 o'r adroddiad.

15.3 Mae Rhaglen trawsnewid system anghenion dysgu ychwanegol Llywodraeth Cymru, sydd yn gosod amserlen a threfn ar sut i fabwysiadu a gweithredu Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 bellach ar waith. Mae' hyn yn mynnu sylw ac adnoddau'r Awdurdodau Lleol ar draws Cymru.

15.4 Hoffem awgrymu y gellid cryfhau’r argymhelliad neu ddatblygu ail argymhelliad fydd yn pwysleisio'r angen i “egluro sut mae’r awdurdod yn bwriadu pontio’r bwlch rhwng y ddarpariaeth anghenion dysgu ychwanegol presennol a’r anghenion a nodwyd a’r cymorth sydd ar gael..1”

15.5 Mae hyn yn cyd-fynd yn llwyr gydag amcanion y ddeddf. Mae Canllawiau Llywodraeth Cymru: Gweithredu Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a’r Tribiwnlys Addysg (Cymru) Asesiad o’r effaith ar y Gymraeg yn cyfeirio at y dyletswyddau presennol o dan Reoliadau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg ac Asesu’r Galw am Addysg Cyfrwng Cymraeg (Cymru) 2013.

15.6 Felly mae’n hanfodol fod y trefniadau i wirio, monitro a datblygu'r CSGA’u lleol yn effeithiol, gan fod llwyddiant cynllunio’r gweithlu i ddarparu gofynion y Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a’r Tribiwnlys Addysg (Cymru) yn ddibynnol ar hyn.

15.7 Y Llwybr Cyfeirio. Y disgwyliad yw o dan y ddeddf newydd y bydd unrhyw bersonau yn gallu cyfeirio pryderon am anghenion dysgu ychwanegol posibl at yr Awdurdod Lleol. Bydd hyn yn digwydd pan fo’r plant o dan oed ysgol neu yn derbyn addysg mewn lleoliad nas cynhelir. Mae’r ddeddf newydd yn creu swyddi penodol fydd a chyfrifoldeb am gydlynu a darparu Cynlluniau Dysgu Unigol i’r plant hyn yn ôl yr angen. Swyddogaethau’r Swyddog arweiniol anghenion dysgu ychwanegol blynyddoedd cynnar fydd hyn.

15.8 Mae’n hanfodol fod y personau fydd yn ymgymryd â’r swyddi hyn yn meddu ar ddealltwriaeth drylwyr o oblygiadau a manteision addysg Gymraeg ynghyd ag arbenigedd mewn anghenion dysgu ychwanegol. Mi fydd y personau hyn yn trafod gwasanaethau a dewisiadau gyda theulu yn y dyddiau cynnar iawn, o bosibl cyn i blentyn gyrraedd oed ysgol. Felly mae angen hyder arnynt i fedri drafod y dewis ieithyddol gyda’r rhieni mewn modd priodol a sensitif. Dangosodd ymchwil Mudiad Meithrin 2 fod pwysau yn cael ei roi gan weithwyr iechyd ag eraill ar rieni plant ag anghenion ychwanegol (Cymraeg eu hiaith a’r rheiny sydd yn siaradwyr ieithoedd eraill) i anfon eu plant i ddarpariaeth cyfrwng Saesneg. Mae hyn yn digwydd i 'ddarparu cysondeb iaith' oherwydd diffygion mewn arbenigeddau Cyfrwng Cymraeg.

15.9 Hoffwn weld argymhelliad fod gweithredu'r ddyletswydd statudol i ystyried darparu CDU yn Gymraeg (sydd yn rhan o’r ddeddf newydd) yn cael

ei wneud gan bobl wedi eu hyfforddi, sydd yn gymwys i ddeall holl oblygiadau'r a dewisiadau ieithyddol i blant yng Nghymru.

15.10 Tra croesawn y bwriad i wella'r system, pryderwn am y goblygiadau i blant cyn oed ysgol yn y cyfnod amser cyn i ni fabwysiadu'r system newydd. Y cyfnod gweithredu disgwyliedig yw 2020 - 2022 a bydd hyn yn rhedeg yn gyfochrog a'r system bresennol sydd fel y gwyddom yn anfanteisiol plant ag anghenion ychwanegol sydd eisiau derbyn addysg a gofal cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg.

15.11 Mi fydd y plant ieuengaf yn debygol o gael eu trin o dan y ddeddfwriaeth newydd o 2021 a chyfrifoldeb yr awdurdod lleol yw paratoi a chynnal eu Cynlluniau Dysgu Unigol (CDU). Mae canllawiau diweddaraf y Llywodraeth yn nodi:

Rhaid i'r ysgol neu'r ALl sy'n cynnal CDU sicrhau'r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol (DDdY) a ddisgrifir yn y CDU a, lle bydd CDU yn nodi y dylid darparu'r DDdY drwy'r Gymraeg, rhaid i'r ysgol neu'r ALl gymryd pob cam rhesymol i sicrhau'r ddarpariaeth honno drwy'r Gymraeg (14)

(14) 14 Yr eithriad yw lle bydd y CDU yn nodi mai corff GIG sydd i sicrhau'r DDdY. Os felly, dyletswydd y corff GIG yw sicrhau'r DDdY honno, ac os nodir bod y DDdY honno i'w chyflwyno drwy'r Gymraeg, rhaid i'r corff GIG gymryd pob cam rhesymol i sicrhau'r ddarpariaeth honno drwy'r Gymraeg: adrannau 20 a 21 o'r Ddeddf.

15.12 Dylid nodi yma mae 'cymryd pob cam rhesymol' ydy'r nod prawf y mae'n rhaid i'r awdurdod lleol gyrraedd ac felly mae'r disgwyliad cyfreithiol yn amwys ac yn agored i ddehongliad. Croesawn yr hyblygrwydd yn y Ddeddf i asesu hyn a chryfhau'r ddyletswydd yn y dyfodol. Ond yn amlwg, gan mae dim ond pob 5 mlynedd bydd angen i weinidogion Cymru ymchwilio i'r ddyletswydd, mi fydd cenhedlaeth o blant yn gorfod derbyn "pob cam rhesymol" yn y cyfamser a gallai hyn fod yn annigonol ac yn rhagfarnu yn erbyn eu hawliau i dderbyn gwasanaethau ag addysg yn Gymraeg

Argymhelliad 16: Codi statws yr iaith Gymraeg mewn adrannau o'r Llywodraeth a llywodraeth leol fel ei bod yn cael ei ystyried yn llawn cyn i unrhyw strategaethau newydd gael eu mabwysiadu. Dylid creu proses hefyd er

mwyn osgoi gwrthdaro neu ddatrys sefyllfa o wrthdaro rhwng strategaethau gwahanol sydd yn effeithio ar sefyllfa'r iaith.

16.1 Cytunwn gyda'r angen i sicrhau bod statws y Gymraeg o fewn adrannau o'r Llywodraeth a'r Llywodraeth Leol yn bwysig er mwyn sicrhau llwyddiant strategaeth Cymraeg 2050, ac er mwyn sicrhau cyd-weithio ar draws adrannau wrth weithredu i wireddu'r strategaeth uchelgeisiol hyn yn lleol.

16.2 Byddai sicrhau cynrychiolaeth o blith adrannau gwasanaethau lleol ar y Fforymau Iaith yn un ffordd o godi ymwybyddiaeth o'r strategaeth a'r cynlluniau sy'n ymwneud â'r iaith ar draws yr adrannau.

Argymhelliad 17: Y Llywodraeth yn ganolog a'r awdurdodau lleol i ystyried maint adnoddau eu hunedau iaith Gymraeg wrth iddynt symud ymlaen i wireddu uchelgais Llywodraeth Cymru ar gyfer 2050.

17.1 Er cytuno bod sicrhau digon o gapasiti o fewn adrannau Llywodraeth Cymru a Llywodraeth Leol i fedru gweithredu drwy gyfrwng y Gymraeg yn rhan bwysig o wireddu uchelgais Llywodraeth Cymru ar gyfer 2050, cynigiwn y byddai ystyried yr adnoddau sydd ar gael ar draws adrannau yn galluogi prif-ffrydio darpariaeth gwasanaethau cyfrwng Cymraeg.

Argymhelliad 18: Dylid sicrhau fframwaith deddfwriaethol sy'n darparu cefnogaeth, cyngor a beirniadaeth adeiladol i'r cyrff wrth iddynt weithio i gwrdd ag unrhyw ddyletswyddau cyfreithiol yn ymwneud â chynllunio addysg (boed hynny ar ffurf CSGA neu ffurf arall).

18.1 Cytunwn fod angen sicrhau fframwaith deddfwriaethol sy'n darparu cefnogaeth, cyngor a beirniadaeth adeiladol i'r cyrff wrth iddynt weithio i gwrdd ag unrhyw ddyletswyddau cyfreithiol yn ymwneud â chynllunio addysg a darpariaeth cyn-ysgol cyfrwng Cymraeg.